Cyngor Bro Morgannwg

# Hysbysfyrddau a Ffensys Safle Dros Dro

Telerau ac Amodau

Fersiwn 2 – Ebrill 2026

**Telerau ac Amodau:**

1. Ni cheir dechrau unrhyw waith gosod hysbysfyrddau na ffensys diogelwch safle dros dro ar y briffordd gyhoeddus heb drwydded awdurdodedig na heb dalu'r ffi gywir. Rhaid cyflwyno'r cais o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dechrau'r gwaith. Bydd angen gwneud cais yn gynharach, ac efallai y bydd angen cyfyngiadau ychwanegol pan fo ffactorau eraill yn effeithio ar y safle arfaethedig, megis sensitifrwydd traffig, oriau gwaith cyfyngedig, mynediad cyfyngedig i'r safle, ardaloedd i gerddwyr, ardaloedd siopa ac ati.

2. Caiff hysbysfyrddau neu ffensys diogelwch safle dros dro eu codi'n ddiogel ar y diwrnod y byddant yn cyrraedd gan neu dan oruchwyliaeth person sy'n gymwys a phrofiadol yn gwneud gwaith o'r fath.

3. Rhaid i'r holl hysbysfyrddau neu ffensys diogelwch safle dros dro sefyll ar eu pen eu hunain ac nid wedi'u gosod mewn sylfeini yn y briffordd fabwysiedig. Bydd yr opsiwn o osod blociau trwm gydag amddiffyniad digonol i beidio â difrodi'r briffordd yn cael ei ystyried a'i gytuno ymlaen llaw gyda swyddog o'r tîm Cynnal a Chadw Priffyrdd.

4. Ni chaiff deunyddiau dros ben eu gadael ar y safle oni bai eu bod o fewn ardal â ffensys, hefyd rhaid symud yr holl ddeunyddiau o'r safle ar y diwrnod datgymalu.

5. **<u>Rhaid</u>** cadw'r cyhoedd yn ddiogel ar bob adeg wrth godi a datgymalu

6. Rhaid i bod hysbysfwrdd neu ffens ddiogelwch safle dros dro gael ei chodi gan bersonél hyfforddedig cymwys.

7. Rhaid clirio hysbysfyrddau neu ffensys diogelwch safle dros dro o'r Briffordd erbyn dyddiad dod i ben y drwydded.

8. Rhaid symud unrhyw hysbysiadau a graffiti anghyfreithlon o'r hysbysfyrddau neu ffensys diogelwch safle dros dro o fewn 48 awr neu'n gynt os yw'n achos brys neu os ydynt yn sarhaus.

9. Rhaid codi unrhyw hysbysfyrddau neu ffensys diogelwch safle dros dro o fewn 450mm(+) o ymyl y palmant (gan ganiatáu bargod cerbydau). Os nad oes modd cynnal hyn, rhaid cysylltu â Chyngor Bro Morgannwg cyn dechrau'r gwaith.

10. Rhaid codi a datgymalu hysbysfyrddau neu ffensys diogelwch safle dros dro yng nghanol trefi, ardaloedd siopa a llwybrau sy'n sensitif o ran traffig ar ddydd Sul (oni bai y cytunir fel arall gyda Chyngor Bro Morgannwg).

11. Rhaid cadw lled addas o droedffordd ar gyfer defnydd y Cyhoedd, rhaid gwarchod hwn trwy'r amser ac ni ddylid ei rwystro.

12. Cyn codi, rhaid i'r ymgeisydd gadarnhau gyda Chyngor Bro Morgannwg y pellter lleiaf angenrheidiol o gliriad ar y droedffordd. Os nad oes modd cynnal y droedffordd, rhaid darparu llwybr arall.

13. Rhaid atodi enw a rhif cyswllt mewn argyfwng/allan o oriau i'r holl hysbysfyrddau neu ffensys diogelwch safle dros dro drwy gydol cyfnod y drwydded. **Bydd methu â chydymffurfio yn arwain at gosb o £150.00.**

14. Mae'r holl geisiadau i'w gwneud trwy ein ffurflen gais am wasanaeth ar-lein ac mae taliad i'w wneud yn llawn pan gaiff ei gymeradwyo drwy ddilyn ein dolen talu'n ddiogel a fydd yn cael ei e-bostio atoch.

https://valeofglamorgancouncilcustomerportal.achieveservice.com/en/service/highway_licenses

Cysylltwch â skipsscaffolding@valeofglamorgan.gov.uk os bydd unrhyw broblemau gyda'r cais.

15. Ni fydd y Cyngor yn prosesu unrhyw geisiadau newydd lle mae darparwr mewn dyled i'r Cyngor am unrhyw dâl sy'n ddyledus.

16. Mae'r trwyddedai yn parhau i fod yn gyfrifol am bob elfen o'r hysbysfyrddau neu'r ffensys diogelwch safle dros dro am **gyfnod cyfan** y drwydded gan gynnwys unrhyw elfennau o hysbysfyrddau neu ffensys dros dro a osodir ar y briffordd fabwysiedig, megis pyst, traed mowntio, clipiau diogelu a gosodiadau, heb fod yn gyfyngedig i gydrannau eraill.

17. Bydd unrhyw geisiadau cymeradwy yn cael eu had-dalu dim ond os gwneir cais cyn dyddiad dechrau'r drwydded, yna gellir rhoi ad-daliad am y swm priodol. Fodd bynnag, os derbynnir cais ar ôl dyddiad dechrau'r drwydded, yna ni roddir ad-daliad.

**Sylwch:**

Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn trwsio unrhyw ddifrod i'r briffordd fabwysiedig sy'n digwydd o ganlyniad i osod neu symud hysbysfyrddau neu ffensys diogelwch safle dros dro, a bydd unrhyw gostau cysylltiedig a ysgwyddir yn cael eu codi ar yr ymgeisydd.

Yr ymgeisydd fydd yn talu unrhyw gostau fydd Cyngor Bro Morgannwg yn eu hwynebu o ganlyniad i fynd yn groes i delerau ac amodau'r drwydded. Ffi diffyg cydymffurfio o **£150.00** am bob achos o dorri'r amodau hyn.

**Cosbau diffyg cydymffurfio:**

- Os byddwch yn methu â chydymffurfio â'r Telerau ac Amodau a’r holl ddeddfwriaeth berthnasol, byddwch yn agored i gamau gorfodi sy'n cynnwys Hysbysiad Cosb Benodedig **Rhan IX Deddf Priffyrdd 1980 am Rwystro Priffordd.**
- Is-adran 137A Pŵer i orchymyn i’r troseddwr symud rhwystr **Cosb Benodedig o £150.00**
- Is-adran 171 meddiannu priffordd ac ati (Cyflawni Trosedd o dan yr is-adran hon) Cosb Benodedig o **£150.00**.
- Adran 149 Symud pethau sy’n cael eu gadael ar Briffyrdd ac sy’n peri niwsans ac ati. (Pŵer i’w symud ac adennill costau).

**Indemniad Cyfreithiol**

Bydd deiliad y Drwydded yn indemnio Cyngor Bro Morgannwg a/neu ei weision a’i asiantau a’u hindemnio’n barhaol rhag unrhyw atebolrwydd, rhag unrhyw hawliadau, galwadau, gweithredoedd, costau a difrodau sy'n deillio o ganlyniad i osod y cynhwysydd ar y lôn gerbydau, ar droedffordd neu ar lain laswellt.  Bydd cyfnod yr indemniad yn dechrau’r un pryd ag y gosodir y cynhwysydd hyd nes y’i symudir yn barhaol.  Rhaid i’r trwyddedai sicrhau bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith ganddo.  Bydd y swm a yswirir gan y polisi yn £5,000,000 ar gyfer unrhyw un digwyddiad gydag yswiriwr cyfrifol.  Yn ôl yr angen, bydd y Trwyddedai’n rhoi’r polisi neu’r polisïau yswiriant i’r Awdurdod ynghyd â derbynebau ar gyfer talu am y polisi cyfredol.